**Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio**
**Planning Directorate**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Victoria Gee
Rheolwr Polisi Cynllunio
Adfywio a Datblygu Economaidd
Cyngor Dinas Casnewydd
Y Ganolfan Ddinesig
Godfrey Road
Casnewydd
NP20 4UR

18 Rhagfyr 2023

Annwyl Victoria,

**Cyngor Dinas Casnewydd – Ymgynghoriad ar Strategaeth a Ffefrir ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Newydd: Ymateb Llywodraeth Cymru**

Diolch i chi am ymgynghori â Llywodraeth Cymru ynghylch y Strategaeth a Ffefrir ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Newydd Cyngor Dinas Casnewydd. Mae'n hanfodol bod CDLl cyfredol gan yr awdurdod er mwyn rhoi sicrwydd i gymunedau a busnesau lleol ac i ddarparu sail gadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau.

Heb amharu ar rymoedd y Gweinidog, mae Llywodraeth Cymru'n ymrwymedig i gynorthwyo Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau) i leihau'r risg o gyflwyno cynlluniau nad ydynt yn gadarn, drwy wneud sylwadau cyn gynted â phosibl yn ystod camau paratoi'r cynllun. Mae Llywodraeth Cymru'n chwilio am dystiolaeth glir fod y cynllun yn cydymffurfio'n gyffredinol â dogfen Cymru'r Dyfodol: Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, sy'n gyson â Pholisi Cynllunio Cymru (PCC) a'r profion cadernid, fel y nodir yn Llawlyfr y CDLl.

Yn ogystal â chydymffurfio â dogfen Cymru'r Dyfodol, mae'r polisïau cynllunio cenedlaethol a nodir yn Rhifyn 11 o Bolisi Cynllunio Cymru (PCC) yn ceisio cyflawni lleoedd cynaliadwy, ansawdd uchel drwy ddull creu lleoedd (dylai'r CDLl sicrhau ei fod yn ystyried unrhyw fersiynau dilynol o PCC cyn yr astudiaeth). Caiff gweithredu'r meysydd polisi craidd yn PCC, megis mabwysiadu strategaeth ofodol gynaliadwy, lefelau twf economaidd a thai priodol, darparu isadeiledd a chreu lleoedd, eu hegluro'n fanylach yn Llawlyfr y CDLl (Rhifyn 3). **Rydym yn disgwyl i elfennau craidd y Llawlyfr, yn enwedig Pennod 5 a'r 'Rhestr Wirio/Rhestrau Gwirio Dadrisgio', gael eu dilyn. Gall methu â chydymffurfio â'r gofynion allweddol hyn arwain at oedi diangen yn ddiweddarach yn y broses o greu'r cynllun.** Caiff y system cynllunio datblygu yng Nghymru ei harwain gan dystiolaeth ac mae dangos sut y caiff cynllun ei lywio gan dystiolaeth yn un o ofynion allweddol y broses o archwilio CDLl.

**Ar ôl ystyried y materion a'r polisïau allweddol yn nogfen Cymru'r Dyfodol, mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad yw safleoedd allweddol KS7 a KS8 yn cydymffurfio'n gyffredinol â dogfen Cymru'r Dyfodol: Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, am y rhesymau a nodir isod.**

Caiff sylwadau penodol eu nodi yn y Datganiad o Gydymffurfiaeth Gyffredinol (Atodiad 1 o'r llythyr hwn). **Mae Atodiad 2 yn amlygu ystod o faterion y mae angen mynd i'r afael â nhw er mwyn i'r cynllun gyd-fynd â PCC a'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu.** Gyda'i gilydd, mae ein

sylwadau'n tynnu sylw at amrywiaeth o faterion y mae angen mynd i'r afael â nhw, er mwyn ystyried bod y cynllun yn ‘gadarn’, fel a ganlyn:

**Atodiad 1 – Cydymffurfiaeth Gyffredinol â dogfen Cymru'r Dyfodol**

- Safleoedd Datblygu Allweddol Gogledd Langstone KS7 a De Langstone KS8 **– ddim yn cydymffurfio'n gyffredinol**
- Cydweithredu Rhanbarthol - **Mae angen eglurdeb/eglurhad pellach ar gysylltiadau a goblygiadau ar gyfer y raddfa dwf**


**Atodiad 2 – Materion craidd y mae angen mynd i'r afael â nhw (PCC a'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu)**

- Lefelau Twf Tai – Eglurhad o Gydweithredu Rhanbarthol
- Lleoliad Twf Cartrefi a Swyddi – Eglurhad
- Gwneud y Mwyaf o Ddarpariaeth Tai Fforddiadwy
- Gweithredu a Chyflawni – Cyffredinol
- Y Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas
- Sipsiwn a Theithwyr
- Y Llain Las / Rhwydweithiau Ecolegol Cadarn a Seilwaith Gwyrdd
- Mwynau
- Perygl Llifogydd
- Ynni Adnewyddadwy

Byddem yn eich annog i geisio eich cyngor cyfreithiol eich hun er mwyn sicrhau eich bod wedi bodloni'r holl ofynion gweithdrefnol, gan gynnwys Arfarniad o Gynaliadwyedd, Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Asesiad o Reoliadau Cynefinoedd gan mai eich awdurdod chi sy'n gyfrifol am y materion hyn. Dylid bodloni gofyniad i Asesu'r Effaith ar Iechyd sy'n deillio o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, lle y bo'n briodol, er mwyn asesu effaith debygol y cynllun datblygu arfaethedig ar iechyd, lles meddyliol ac anghydraddoldeb.

Mae fy nghydweithwyr a minnau'n edrych ymlaen at eich cyfarfod chi a'r tîm i drafod materion sy'n codi o'r ymateb hwn.

Yn gywir,



**Neil Hemington**
**Prif Gynllunydd, Llywodraeth Cymru**

Ar gyfer materion sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth gyffredinol â dogfen Cymru'r Dyfodol a pholisi cynllunio, cysylltwch â: PolisiCynllunio@llyw.cymru / Ar gyfer materion yn ymwneud â gweithdrefnau'r Cynllun Datblygu Lleol a chydymffurfiaeth â'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, cysylltwch â: mark.newey@llyw.cymru a candice.coombs001@llyw.cymru

## Atodiad 1 - Datganiad o Gydymffurfiaeth Gyffredinol

**Mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad yw safleoedd allweddol KS7 a KS8 - Gogledd a De Langstone yn cydymffurfio'n gyffredinol â dogfen Cymru'r Dyfodol fel y nodir ym mharagraffau 2.16 – 2.18 o'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3).**

Mae'r datganiad cydymffurfio hwn yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth Cymru yn cadw at ei safbwynt ffurfiol hyd nes y bydd y gyfres lawn o bolisïau, cynigion a sail dystiolaeth derfynol ar gael i graffu arni yn y Cam Adneuo.

### Rhesymau

Mae Cymru'r Dyfodol yn gosod pwyslais ar ddatblygu Ardaloedd Twf Cenedlaethol mewn ffordd gynaliadwy. Rhaid cynllunio ardaloedd twf i fod yn gynaliadwy, i leihau'r angen i deithio yn y car, i annog cerdded a beicio (teithio llesol), i wneud y mwyaf o drafnidiaeth gyhoeddus ac i ymgorffori seilwaith gwyrdd. Rhaid i ardaloedd twf ymgorffori'r egwyddorion hyn o fewn consensws rhanbarthol ehangach, gan ganolbwyntio ar y cyfleoedd a gyflwynir ganddynt i hyrwyddo manteision cymdeithasol ac economaidd dros ardal ddaearyddol ehangach. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi twf cynaliadwy mewn ardaloedd twf cenedlaethol er mwyn ymateb i'r argyfyngau newid hinsawdd a bioamrywiaeth a gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau.

Mae Polisi 1 a 33 o ddogfen Cymru'r Dyfodol yn nodi mai Caerdydd, **Casnewydd** a'r Cymoedd fydd prif ffocws twf a buddsoddiad yn y rhanbarth. Uchelgais Cymru'r Dyfodol yw i Gasnewydd ddarparu ar gyfer twf strategol i gefnogi Casnewydd a darparu ffocws ar gyfer twf cydlynol sydd wedi'i gynllunio'n dda ar draws y rhanbarth.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod graddfa'r twf yn y Strategaeth a Ffefrir yn cydymffurfio'n gyffredinol â Chymru'r Dyfodol. Fodd bynnag, mae nodi'n ofodol ddau safle strategol i'r gogledd a'r de o Langstone yn achosi pryder, ac ystyrir fod hynny'n groes i'r polisïau allweddol a nodir yng PCC/Cymru'r Dyfodol.

### Safleoedd Datblygu Allweddol - KS7 Gogledd Langstone a KS8 De Langstone

Cydnabyddir bod Strategaeth a Ffefrir Casnewydd yn cael ei chefnogi gan ystod o dystiolaeth dechnegol mewn perthynas â lefelau twf tai a chapasiti trefol. Mae'r dewisiadau strategol yn datblygu ar y strategaeth yn y CDLl mabwysiedig presennol a buddsoddiad seilwaith mawr arfaethedig mewn seilwaith fel gorsafoedd rheilffyrdd newydd (gweler Atodiad 2).

Nodir tri safle ehangu strategol i'r dwyrain o'r ddinas. Rydym o'r farn **bod <u>dau safle allweddol</u> i'r gogledd o'r M4 – Gogledd Langstone (KS7) a De Langstone (KS8) yn cynrychioli math o ddatblygiad strategol nad yw'n cyd-fynd â'r egwyddorion creu lleoedd a nodir yn nogfen Cymru'r Dyfodol/PCC. Mae'r testun ategol i Bolisi 33 Cymru'r Dyfodol yn nodi:**

> *Caiff Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd eu nodi ym mholisi 1 fel Ardal Dwf Genedlaethol lle y cyfeirir datblygiadau. Cefnogir hyn gan bolisïau 2, 3, 6 ac 8 a fydd yn sicrhau bod gwaith datblygu yn cael ei leoli'n gynaliadwy gyda mynediad hawdd i drafnidiaeth gyhoeddus a gwasanaethau cyhoeddus eraill. Rhaid i drefi a dinasoedd dyfu mewn ffordd gynaliadwy ac mewn ffordd sy'n hyrwyddo creu lleoedd.*

Mae Polisi 2 Cymru'r Dyfodol - Llunio Twf ac Adfywio Trefol – Creu Lleoedd Strategol yn hyrwyddo adeiladu lleoedd ar raddfa gerddedadwy, gyda chartrefi, cyfleusterau lleol, a thrafnidiaeth gyhoeddus o fewn pellter cerdded/beicio i'w gilydd. Er bod y Strategaeth a Ffefrir yn tynnu sylw at y ffaith y bydd angen ymgorffori mesurau ffyrdd, cerddwyr a beicio wrth ddatblygu'r safleoedd hyn,

mae'r **disgrifiad o fesurau yn eang, yn gyffredinol, ac nid oes ynddo'r ddealltwriaeth fanwl sy'n angenrheidiol i gefnogi'r prif ddyraniadau strategol mewn ardal dwf genedlaethol.**

Yn ogystal â hynny, mae PCC, Llwybr Newydd a Chomisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru oll yn pwysleisio'r amcan polisi y dylai datblygiad leihau'r angen i deithio, yn enwedig mewn cerbydau preifat, a chefnogi newid mewn dulliau teithio i gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy yn PCC, sy'n blaenoriaethu teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus, yn egwyddor sylfaenol gan Lywodraeth Cymru sy'n sail i ddogfen Cymru'r Dyfodol a Llwybr Newydd.

Nodwyd materion ynghylch safleoedd KS7 a KS8 y mae angen eu datrys mewn perthynas â'r effeithiau ar Gyffordd yr M4/Coldra y bydd angen i'r holl draffig basio trwyddi, hyd yn oed wrth deithio i mewn i Gasnewydd. Y prif goridor mynediad fydd yr A48 lle mae gwasanaethau bws cyfyngedig ar hyn o bryd. Y canlyniad mwyaf tebygol yw y bydd llawer o breswylwyr yn symud i'r safleoedd hyn ac oddi yno ar drafnidiaeth breifat, heb welliannau sylweddol ar ffurf lonydd bysiau/gatiau i gael mynediad i'r safleoedd. **Ystyrir felly nad oes tystiolaeth i gyfiawnhau sut mae'r safleoedd hyn yn cydymffurfio â Pholisïau 2 a 33 Cymru'r Dyfodol a Strategaeth Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru, Llwybr Newydd.**

## <u>Cydweithredu Rhanbarthol - Rhagor o eglurder/cyfiawnhad:</u>

Gan nad oes Cynllun Datblygu Strategol, mae angen i Gynlluniau Datblygu Lleol ddangos sut mae polisïau rhanbarthol Cymru'r Dyfodol wedi eu hystyried, a dangos sut maent yn cydymffurfio â dogfen Cymru'r Dyfodol a Pholisi Cynllunio Cymru. Er ei bod yn ymddangos bod Strategaeth a Ffefrir Casnewydd wedi ystyried y polisïau perthnasol, cyfyngedig yw'r dystiolaeth o feddwl ar lefel rhanbarthol a gwneud penderfyniadau rhanbarthol ar hyn o bryd. Mae'n siomedig bod y Strategaeth a Ffefrir ar gyfer dinas strategol allweddol mewn ardal dwf genedlaethol yn cymryd safbwynt lleol yn bennaf, o ran materion rhanbarthol allweddol. Mae'n rhaid i bob Awdurdod Lleol barhau i ddangos sut mae eu Cynlluniau Datblygu Lleol unigol wedi cael eu llywio gan weithio'n rhanbarthol.

Mae diffyg (fel y dangosir gan ymgynghoriadau CDLl statudol cyfredol a diweddar yn y rhanbarth) o ran gwaith rhanbarthol ystyrlon, ac nid yw'r cyfleoedd i ystyried materion strategol ar draws ardaloedd yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi'u datblygu'n dda, yn enwedig o ystyried cysylltiadau swyddogaethol rhwng ardaloedd trefol cyfagos, sy'n arddangos materion gofodol cyffredin. **Wrth symud ymlaen at y Cam Adneuo, bydd angen gwneud gwaith pellach i ddeall sut y cafodd y Strategaeth a Ffefrir ei datblygu o fewn y cyd-destun rhanbarthol ehangach a sut y bydd yn hyrwyddo ac yn gwella rôl strategol Casnewydd yn y rhanbarth ehangach, er enghraifft yn y berthynas â Chynghorau Torfaen a Sir Fynwy.**

## Atodiad 2 – Materion craidd y mae angen mynd i'r afael â nhw (PCC a'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu)

### <u>Strategaeth Ofodol – Lleoliad Twf</u>

Mae'r Papur Cefndir ar y Strategaeth Ofodol yn crynhoi'r opsiynau gofodol a ystyriwyd, a oedd yn cynnwys:

Opsiwn 1: Tir a ddatblygwyd o'r blaen (PDL)
Opsiwn 2: Estyniad(au) Trefol
Opsiwn 3: Ffocws Pentref Diffiniedig
**Opsiwn 4. Dull hybrid – 'y Strategaeth Ofodol a Ffefrir'**

Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn ceisio manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd yn yr ardal drefol gan flaenoriaethu ailddatblygu ac adfywio tir yn yr ardal drefol, gan gynnwys adfywio hen Weithfeydd

Dur Llanwern yng Nglan Llyn a hen weithfeydd Whitehead ar gyfer datblygiad preswyl, yn ogystal â datblygiadau ar ymylon anheddau mewn lleoliadau priodol ar gyrion yr ardal drefol. Mae'r Cyngor yn cynnig strategaeth gymysg o safleoedd tir llwyd a safleoedd maes glas. **Nid yw Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu egwyddor y dull gweithredu hwn.**

Mae'r Cyngor wedi ymgymryd ag amrywiaeth o waith technegol mewn perthynas â chyfleoedd capasiti trefol gan gynnwys asesiad cyflawni o'r banc/dyraniadau tir presennol (Papurau Cefndir Capasiti/Cyflenwad Trefol LSH a Phapur Cefndir Cyflenwad Tai) sy'n cael eu cefnogi ac sy'n cyd-fynd â gofynion PCC a'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu. Gyda'i gilydd, mae'r gwaith technegol hwn wedi dod i'r casgliad bod banc tir presennol yng Nghasnewydd o 5,850 o anheddau. **Ar y sail hon, mae angen 4,675 o anheddau ar ddyraniadau newydd** (gweler Tabl 1 isod).

Mae ein hymateb yn Atodiad 1 wedi egluro ein pryderon ynghylch Safleoedd Allweddol KS7 a KS8 sy'n dod i gyfanswm o 1,050 o unedau, nad ydym yn eu hystyried yn gydymffurfiaeth gyffredinol â dogfen Cymru'r Dyfodol. Yn ogystal â hynny, ni allwn roi **barn gref** ar y strategaeth ofodol ar hyn o bryd gan fod 1,830 o unedau i'w dyrannu 'yn bennaf o fewn ac ar ymyl y ffin drefol'. Nid ydym yn gwrthwynebu egwyddor y dull hwn, fodd bynnag, hyd nes y **bydd lleoliad, cwantwm ac addasrwydd y safleoedd hyn mewn perthynas â'u cydymffurfiaeth â dogfen Cymru'r Dyfodol a PCC yn cael ei wneud yn eglur, rydym yn cadw'r hawl i wneud sylwadau ar y strategaeth ofodol nes bod yr holl fanylion perthnasol ar gael wrth symud ymlaen i Adneuo.**

| **Darpariaeth Tai** | **10,530** | **Sylwadau LIC** |
|---|---|---|
| Banc Tir - *yn deillio o'r Astudiaeth Cymhwysedd Trefol/Adolygiad Cyflenwad Tai* | -5,850 | Dim pryderon |
| **Angen dyraniadau newydd** | **4,680** | |
| Safle Allweddol KS4 Ffordd Langstone *(unedau yn ystod cyfnod hwn y cynllun)* | -1,800 *(Cyfanswm capasiti 2,500)* | Cefnogi mewn egwyddor. Mae angen gwneud rhagor o waith. |
| Safle Allweddol KS7 Gogledd Langstone | -750 | **Gwrthwynebiad Cydymffurfiaeth Gyffredinol** |
| Safle Allweddol KS8 De Langstone | -300 | **Gwrthwynebiad Cydymffurfiaeth Gyffredinol** |
| Unedau i'w dyrannu ar safleoedd o 10-299 o unedau | 1,830 | **Methu gwneud sylw oherwydd diffyg manylion. Cadw ein safbwynt** |

**KS4 -** Mae **Ffordd Langstone** yn safle strategol a nodwyd ar gyfer datblygiad defnydd cymysg (*nid yw'n gynhwysfawr)* ar gyfer hyd at 2,500 o gartrefi, gan gynnwys canolfan ardal, hamdden, ysgol, rhwydweithiau seilwaith gwyrdd a seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus. **Nid yw'r LIC yn gwrthwynebu egwyddor y safle, fodd bynnag, bydd angen gwneud rhagor o waith yn ystod y Cam Adneuo i ddangos cydymffurfiaeth â gofynion Llwybr Newydd, dogfen Cymru'r Dyfodol, PCC, y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu** ac i ystyried argymhellion Adroddiad Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru.

Mae gwaith uwchgynllunio yn y cam Adneuo yn hanfodol er mwyn sicrhau bod dyluniad trefol da, egwyddorion creu lleoedd a chysylltedd yng nghanol y ddinas ac i ganolfannau ardal/ardaloedd cyflogaeth eraill, yn gyntaf trwy deithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus, yn cael eu hymgorffori mewn polisi safle-penodol allweddol o fewn y cynllun. Dylai'r uwchgynllun/polisi arfaethedig wneud y mwyaf o ddwysedd yn y lleoliad hwn yn unol â Pholisi 12 Cymru'r Dyfodol - Cysylltedd Rhanbarthol. Dylid manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddarparu gwell cysylltiadau bysiau/teithio llesol i'r safle ac oddi yno, i'w gyfleusterau allweddol ac i'r ardaloedd cyfagos, ac i bobl gael mynediad at Orsaf Reilffordd arfaethedig Llanwern a Chanol Dinas Casnewydd drwy'r gwelliannau i'r Metro. Gallai hyn gynnwys (nid yw'n gynhwysfawr) seilwaith trafnidiaeth sylweddol. Er enghraifft, darpariaeth ychwanegol ar ochr ogleddol gorsaf Llanwern ar gyfer cyfnewidfa fysiau/cyfleusterau beicio a pharc

parcio a theithio newydd o bosibl. Dylai'r gwaith uwchgynllunio/datblygu echel adlewyrchu'r cysylltiadau hynny lle bo hynny'n bosibl a dylid gwneud y mwyaf o lwybrau teithio llesol i nodau a chyfleusterau trafnidiaeth allweddol, o fewn a thu allan i'r safle. **Dylai'r Awdurdod ymgysylltu â Chomisiwn Dylunio Cymru i sicrhau bod egwyddorion creu lleoedd da yn cael eu hystyried a'u hymgorffori yn y cam llunio cynlluniau wrth symud ymlaen i Adneuo.**

Dylid hefyd ymgorffori gofynion seilwaith o fewn y polisi safle-penodol yn y cynllun i sicrhau datblygiad cynhwysfawr, ac i sicrhau bod cyfraniadau datblygwyr yn cael eu sicrhau lle bo'r angen a lle bo'n briodol.

Mae angen i'r awdurdod hefyd ddangos sut yr aethpwyd i'r afael â'r cyfyngiadau amrywiol a'r effeithiau posibl ar Wastadeddau Gwent, gan gynnwys materion yn ymwneud â bioamrywiaeth, tirwedd, perygl llifogydd a seilwaith ffisegol. Mae papur cefndir y Strategaeth Ofodol yn nodi y bydd yr unedau cyntaf yn cael eu darparu ar y safle hwn o 2025/26 ymlaen. O ystyried arwyddocâd y safle i gyflawni'r strategaeth twf a gofodol, mae'n hanfodol bod y safle'n cael ei ddarparu o fewn yr amserlenni a nodwyd (gweler sylwadau cyffredinol ynghylch cyflawni a gweithredu).

**<u>Lefel y Twf: Cartrefi a Swyddi</u>**

Mae Dinas Casnewydd yn Ardal Dwf Genedlaethol a nodwyd ym Mholisi 1 Cymru'r Dyfodol **(Gweler Atodiad 1)**. Mae'r Strategaeth a Ffefrir (Polisi PS1) yn darparu ar gyfer 10,530 o gartrefi i gyflawni gofyniad tai o 9,570 (638 y flwyddyn) dros gyfnod y cynllun 2021-2036. Tua 10% yw'r lwfans hyblygrwydd. Lefel y swyddi newydd a gynigir yw 8,640 (576 y flwyddyn) dros gyfnod y cynllun.

**<u>Cartrefi</u>:** Prif amcanestyniadau 2018 Llywodraeth Cymru yw'r amcanestyniadau diweddaraf ar gyfer y Strategaeth a Ffefrir hon. **Bydd angen i'r Cyngor ystyried unrhyw amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd ar gyfer y dyfodol sy'n seiliedig ar ddata diweddaraf Cyfrifiad 2021 os cânt eu cyhoeddi cyn i'r cynllun gael ei archwilio.** Byddai prif amcanestyniad 2018 *(a ailsylfaenwyd ar ffigurau aelwydydd a phoblogaeth Cyfrifiad 2021)* yn arwain at ofyniad ar gyfer 530 uned y flwyddyn neu 7,950 annedd dros gyfnod y cynllun. Y lefel twf arfaethedig o ran tai yn y cynllun yw tua +1,620 o unedau uwchlaw amcanestyniad Llywodraeth Cymru-2018 a 'ailsylfaenwyd'. Mae'r gofyniad tai o 9,570 yn -780 uned yn llai na'r cynllun mabwysiedig presennol.

Mae'r dystiolaeth ddemograffig (Diweddariad Demograffeg CDLl Medi 2022 – Edge Analytics) wedi profi 11 o senarios twf sy'n cynnwys: senarios demograffig, senarios anheddau, a senarios swyddi, gan arwain at ystod o 335 ayf i 838 ayf. Yn gyffredinol, mae Casnewydd wedi profi tueddiadau demograffig cadarnhaol o'i gymharu ag Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill yn y rhanbarth ac ar draws Cymru, gan weld mudo cadarnhaol, newid naturiol, a thwf poblogaeth yn y rhan fwyaf o garfannau oedran.

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod cyfraddau cwblhau hanesyddol yng Nghasnewydd wedi amrywio dros gyfnodau gwahanol rhwng 330 annedd y flwyddyn ac uchafbwyntiau o oddeutu 950 annedd y flwyddyn. Ac eithrio 'blynyddoedd Covid', y cyfraddau cwblhau cyfartalog ar gyfer y 10 mlynedd diwethaf ar gyfer 2010-2020 yw 638 ayf. O'i chymharu â'r gyfradd gwblhau 10 mlynedd ar gyfer y cyfnod 2013-2023, y gyfradd gwblhau ar gyfartaledd yw 667 ayf. Yn fwy diweddar, y cyfraddau cwblhau pum mlynedd diwethaf ar gyfer 2015-2020 ac eithrio 'blynyddoedd Covid' yw 838 ayf, o'u cymharu â'r cyfraddau cwblhau pum mlynedd diwethaf ar gyfer 2019-2023 sef 576 ayf.

**Mae gofyniad tai y Cyngor yn seiliedig ar gyfraddau cyflawni yn y gorffennol (638 ayf) dros gyfnod o 10 mlynedd rhwng 2010 a 2020** ac eithrio 'blynyddoedd Covid' lle dechreuodd darpariaeth tai a thwf cyflogaeth arafu oherwydd y pandemig. Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried bod modd cyflawni'r gyfradd hon. Mae'r Cyngor o'r farn bod y lefel hon o dwf yn briodol gan fod y cyfnod 10 mlynedd hwn yn ystyried uchafbwyntiau ac isafbwyntiau, yn cyfrannu at rôl Casnewydd yn yr Ardal Dwf Genedlaethol, yn cydbwyso cyfleoedd cadarnhaol ar gyfer twf newydd, wrth adlewyrchu maint y tir llwyd sydd ar gael ac yn cydnabod y cyfyngiadau ar ddatblygu, yn

enwedig ar safleoedd maes glas y tu allan i'r ffin drefol. Mae hefyd yn darparu cyfleoedd cadarnhaol ar gyfer swyddi ychwanegol a thwf economaidd (gweler sylwadau sy'n ymwneud â thwf swyddi).

Fodd bynnag, fel yr esboniwyd yn Atodiad 1, barn **Llywodraeth Cymru yw mai tystiolaeth gyfyngedig a gyflwynwyd mewn perthynas â sut mae lefel y twf yng Nghasnewydd wedi cael ei hystyried yn y cyd-destun rhanbarthol ac mae angen rhagor o waith mewn perthynas â chydweithio rhanbarthol i ddangos y casgliad hwn.**

**Tir Swyddi a Chyflogaeth :** Mae opsiwn twf dan arweiniad anheddau'r Cyngor yn arwain at ofyniad am 8,640 o swyddi newydd (576 y flwyddyn) dros gyfnod y cynllun. Amcangyfrifwyd y lefel hon o dwf cyflogaeth a swyddi yn seiliedig ar senario twf anheddau a ffefrir y Cyngor o 638 uned y flwyddyn (Edge Analytics, Tabl 2). Mae lefel y swyddi a gynigir yn realistig ac mae'r Cyngor yn ystyried eu bod yn ddigon uchelgeisiol i barhau i fodloni uchelgeisiau cynyddol economi'r Ddinas ac i annog ffyniant yn y ddinas-ranbarth ehangach, sef Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. **Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw bryderon sylweddol o ran lefel y twf mewn swyddi a gynigir yn y cynllun**.

Mae Adolygiad Tir Cyflogaeth y Cyngor (Chwefror 2022) yn nodi gofyniad am 77 hectar o dir cyflogaeth, sy'n cynnwys clustog 5 mlynedd. Mae'r gofyniad yn seiliedig ar dueddiadau'r gorffennol ac mae'n ymwneud yn bennaf â diwallu'r angen yng Nghasnewydd (62ha) a mynd i'r afael â diffygion ar draws y rhanbarth (15ha) gan mai Casnewydd yw'r unig awdurdod a nodwyd ar gyfer twf economaidd cadarnhaol ac yno mae'r banc tir cyflogaeth mwyaf yn y rhanbarth.

Cynigir bodloni'r gofyniad am dir cyflogaeth ar 6 dyraniad a restrir ym Mholisi PS8, y mae pob un ohonynt wedi'u cyflwyno o'r cynllun mabwysiedig presennol. Er nad yw Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu egwyddor y dull hwn yn unol â'r dystiolaeth, rhaid i'r Cyngor sicrhau bod y dyraniadau'n addas ac yn gyflawnadwy ac yn ateb galw'r farchnad i helpu i gyrraedd targed swyddi'r cynllun. Dylai'r cynllun adneuo wneud y canlynol:

- Nodi dyraniadau cyflogaeth cynaliadwy, y mae modd eu cyflawni, a fydd yn cyfrannu at y targed swyddi ac yn diwallu'r angen a nodwyd yn yr Adolygiad Tir Cyflogaeth.
- Diogelu safleoedd cyflogaeth presennol allweddol i'w cadw at ddefnydd cyflogaeth, a
- Rheoli tir cyflogaeth presennol a gollir at ddefnyddiau amgen neu atodol.

**I grynhoi, ac yn amodol ar yr eglurhad uchod, nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw bryderon sylweddol o ran lefel y cartrefi a'r swyddi a gynigir yn y cynllun, yr ystyrir eu bod yn cydymffurfio'n gyffredinol â dogfen Cymru'r Dyfodol.** Bydd dangos y gwaith o gyflawni'r lefel o gartrefi (a'r safleoedd arfaethedig) yn y cynllun yn hanfodol wrth symud ymlaen i'r cam Adneuo yn unol â gofynion PCC a'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu (gweler y sylwadau yn ymwneud â chyflawni).

**Gwneud y Mwyaf o Ddarpariaeth Tai Fforddiadwy**

Mae'r LHMA newydd yn dangos mai lefel yr angen o dan yr amcanestyniad sy'n seiliedig ar 'bolisi niwtral' 2018, yw 590 ayf, sy'n cynnwys rhaniad yn ôl deiliadaeth o 85% o anheddau rhent cymdeithasol a 15% o anheddau rhent canolradd . Wrth ddefnyddio amcanestyniad 2018 wedi'i ailsylfaenu, lefel yr angen yw 530 uned y flwyddyn. Gan nad yw'r LHMA wedi'i gwblhau eto, **nid yw'n glir sut mae canfyddiadau'r LHMA newydd wedi dylanwadu ar dwf y raddfa/lleoliad, er yr ymddengys y defnyddiwyd un ardal farchnad dai sy'n cwmpasu'r awdurdod lleol cyfan? Erbyn y cam Adneuo, rhaid i'r awdurdod gyhoeddi ei LHMA.**

Mae angen i'r ACLI ddangos sut mae'r strategaeth twf a ddewiswyd wedi gwneud y mwyaf o gyflawni cartrefi fforddiadwy y mae mawr eu hangen. Er mwyn manteisio ar y cyflenwad tai

fforddiadwy i'r eithaf, dylai'r Cyngor ystyried a fyddai'n briodol dyrannu safleoedd ar gyfer datblygiadau a arweinir gan dai fforddiadwy lle bydd o leiaf 50% o'r cartrefi'n fforddiadwy.

**Y Gymraeg**

Mae Polisi PS3 Creu Lleoedd Cynaliadwy yn cefnogi twf hirdymor y Gymraeg ac yn cydnabod bod defnydd o'r Gymraeg yn tyfu yng Nghasnewydd. Mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ISA) yn cynnwys Amcanion i gefnogi a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, ond nid yw'n glir sut mae'r Amcanion hyn wedi'u hasesu yn Opsiynau Twf a Gofodol yr ISA, goblygiadau'r Gymraeg ar y Strategaeth a Ffefrir (os o gwbl) ac a yw hyn yn fater allweddol i Gasnewydd.

**Cyflawni a Gweithredu – Cyffredinol**

Yn unol â gofynion allweddol PCC, mae Pennod 5 y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu yn cynnwys canllawiau ar y gofynion allweddol o ran cyflawni a gweithredu'r CDLlau. Dylai'r Cynllun Adneuo nodi manylion penodol i'r safle ar gyfer dyraniadau allweddol sy'n cynnwys amserlenni o'r camau cyffredinol, seilwaith allweddol ac egwyddorion creu lleoedd (gan gynnwys fframweithiau cysyniad/uwchgynllun sgematig), cyfyngiadau a gofynion ar ddatblygwr a seilwaith, lle bo'n briodol.

Bydd angen i'r Cyngor ddangos hefyd bod modd cyflawni safleoedd unigol a safleoedd cyfunol (sy'n cynnwys rhagdybiaethau) trwy lwybr tai a baratowyd ar y cyd â'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai. Byddai datganiadau o Dir Cyffredin ar gyfer dyraniadau allweddol, yn enwedig rhai sydd wedi'u ‘trosglwyddo’ o'r cynllun mabwysiedig yn fanteisiol i ddangos y bydd safleoedd yn dod gerbron yn yr amserlenni a ddynodwyd, neu fel arall gallai hyn gael goblygiadau o ran cyflawni.

Dylai'r Cynllun Adneuo gael ei gefnogi gan astudiaeth o dai fforddiadwy lefel uchel ac arfarniadau hyfywedd penodol i'r safle ar gyfer safleoedd allweddol, lle bo'n briodol. Rhaid paratoi'r holl waith hyfywedd a'i fewnbynnau ar y cyd â'r Grŵp Llywio Hyfywedd a hyrwyddwyr penodol i'r safle.

**Sipsiwn a Theithwyr**

Nid yw Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr y Cyngor (2021) y cyfeirir ato yn Strategaeth a Ffefrir (Pennod 9) y Cyngor yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth. **Heb Asesiad Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) wedi'i ddiweddaru sy'n cwmpasu holl gyfnod y cynllun newydd, nid yw'n eglur beth yw'r math, y lefel o angen (os o gwbl) na'r amserlenni ar gyfer cyflawni.**

**Erbyn y cam Adneuo, rhaid i'r awdurdod gyhoeddi ei GTAA** er mwyn bodloni ei ddyletswydd statudol a chydymffurfio â gofynion Polisi Cynllunio Cymru (4.2.35), Cylchlythyr 005/2018 (paragraff 35) a'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu (5.80-5.85) i ddyrannu safleoedd digonol y mae modd eu cyflawni yn y cynllun ar gyfer anghenion Sipsiwn a Theithwyr sydd heb eu diwallu, os yn briodol.

**Tir Amaethyddol**

**Strategaeth a ffefrir: Strategaeth Ofodol / ISA** - Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl tystiolaeth glir sy'n dangos sut y cafodd y polisi Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas ei ystyried ar gyfer pob opsiwn gofodol a thwf. Mae polisi tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas yn cael ei ystyried yn rhannol o dan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (SA) 7-9- Adnoddau Naturiol, fodd bynnag, nid yw'n glir sut y cafodd y polisi ei drin yn yr ISA na'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd ar gyfer yr arfarniad. Prin yw'r dystiolaeth i ddangos sut y cafodd y polisi tir gorau a mwyaf amlbwrpas ei ystyried yn asesiad y strategaeth ofodol, y broses dewis safleoedd, a sut mae'r dewisiadau a wnaed yn y cynllun yn effeithio ar adnodd y tir gorau a mwyaf amlbwrpas dros gyfnod y cynllun. Mae angen rhagor o eglurhad am hyn.

**Methodoleg Asesu Safleoedd Ymgeisiol** - Nid yw'n glir sut mae'r polisi tir gorau a mwyaf amlbwrpas yn cael ei ystyried wrth ddilysu ac asesu safleoedd ymgeisiol, na faint o bwysau sy'n

cael ei roi i'r polisi ym methodoleg asesu safleoedd a pholisïau perthnasol h.y. dangos bod 'pwysau sylweddol' yn cael ei roi i amddiffyn y tir gorau a mwyaf amlbwrpas; yr 'angen gorbwysicaf' i'r safle gael ei ddatblygu a chymhwyso'r dull prawf cymalog. Mae Tabl A.2 fframwaith a meini prawf safleoedd ymgeisiol yn datgan amcan Adnoddau Naturiol '*Gwneud y defnydd gorau o dir a ddatblygwyd o'r blaen ac adeiladau presennol i leihau'r pwysau am ddatblygiad maes glas a diogelu tir amaethyddol gradd uwch lle bo'n bosibl .* Nid yw'n glir a yw 'gradd uwch' yn cyfeirio at dir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas fel y'i diffinnir ym mharagraff 3.58 a 3.59 PCC. Nid yw'n glir ychwaith a yw'r Awdurdod yn defnyddio'r dystiolaeth ddiweddaraf sydd ar gael (Mapiau Dosbarthiad Tir Amaethyddol (ALC) 2019) na sut y defnyddiwyd y dystiolaeth wrth ystyried y broses dewis safleoedd.

**Ynni adnewyddadwy: Polisi CE10 -** Nid yw'n glir sut mae'r polisi ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy ac ardaloedd chwilio yn mynd i'r afael â'r polisi tir gorau a mwyaf amlbwrpas (fel yr eglurir yn llythyr y Prif Swyddog Cynllunio, 1 Mawrth 2022) a phriddoedd carbon uchel (e.e. mawndiroedd). Felly, nid yw'n glir sut mae'r CDLl yn cydymffurfio â Pholisïau 9 a 17 Cymru'r Dyfodol a PCC yn hyn o beth.

I grynhoi, mae LIC yn disgwyl i'r polisi tir gorau a mwyaf amlbwrpas gael ei ystyried ar y pwynt cynharaf yn y broses a thrwy'r holl broses wedi hynny. Rhaid cynnwys digon o dystiolaeth a chyfiawnhad mewn perthynas â'r polisi hwnnw yn y cynllun, yr arfarniad o gynaliadwyedd, y strategaeth ofodol, a'r pwysau a roddwyd i'r tir gorau a mwyaf amlbwrpas wrth ddewis safleoedd. **Nid ydym o'r farn bod hyn wedi'i ddangos yn glir yn y Strategaeth a Ffefrir, yr ISA, wrth ddewis safleoedd nac yn y dogfennau cefndirol.** Argymhellir bod y polisi tir gorau a mwyaf amlbwrpas yn cael sylw penodol yn y Cynllun Adneuo drwy bapur pwnc penodol sy'n nodi sut mae'r cynllun wedi ystyried y polisi, wedi dangos tystiolaeth ohono ac wedi mynd i'r afael ag ef. Dylai'r Cynllun Adneuo ddangos tystiolaeth o unrhyw ddyraniadau arfaethedig a dangos bod cryn dipyn o bwysau wedi ei roi i ddiogelu'r tir gorau a mwyaf amlbwrpas a lleihau unrhyw golled, yn unol â (TAN6 Atodiad B, PCC 3.58 a 3.58, Polisi 9 Cymru'r Dyfodol). Byddem yn cynghori'r Cyngor i gysylltu â'n cydweithwyr yn Is-adran y Tir, Natur a Choedwigaeth mewn perthynas â'r holl sylwadau a wnaed am y tir gorau a mwyaf amlbwrpas.

**<u>Gwastadeddau Gwent</u>**

Mae Polisi 9 Cymru'r Dyfodol yn nodi Gwastadeddau Gwent fel un o naw Ardal Adnoddau Naturiol Cenedlaethol sy'n gofyn am ddull cydweithredol/trawsffiniol o safbwynt llunio polisi cynllunio yn y dyfodol. Ym Mholisi 9 Cymru'r Dyfodol caiff Gwastadeddau Gwent eu cydnabod fel bod o bwysigrwydd cenedlaethol oherwydd eu bioamrywiaeth, nifer o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, amrywiol rywogaethau â blaenoriaeth, ac am eu rhwydwaith o ffosydd, a chynefinoedd corsydd a gwelyau cyrs. Dylai'r CDLl diwygiedig gydnabod y cyfleoedd a gynigir gan y Gwastadeddau a chanolbwyntio ar wneud y mwyaf o'u priodoleddau cadarnhaol yn unol â Pholisi 9 Cymru'r Dyfodol.

Ni ddylai dyraniadau gyfaddawdu ar integredd cyffredinol Gwastadeddau Gwent na'u nodweddion. Er enghraifft, er y gallai ffosydd ar safleoedd a neilltuwyd fod wedi eu lleoli y tu allan i'r Gwastadeddau, gallent fod yn bwydo i systemau cwrs dŵr ar y Gwastadeddau a gallai hynny gael effeithiau niweidiol posibl ar yr ardal gyfan.

Dylid cyfeirio at Wastadeddau Gwent mewn perthynas â safle tai strategol KS4: Ffordd Langstone, Llanwern oherwydd presenoldeb ffosydd ar y safle a allai effeithio ar ardal ehangach Gwastadeddau Gwent e.e. o ganlyniad i effaith gan ddŵr ffo.

**<u>Y Llain Las</u>**

Mae Strategaeth a Ffefrir Casnewydd yn cydnabod y gofyniad i ystyried Llain Las ond yn dod i'r

casgliad (para 8.1.58 – 8.1.59) y byddai'n amhriodol dynodi union ffin Llain Las yn y CDLl newydd heb gynllun datblygu strategol y cytunwyd arno'n rhanbarthol, gan y gallai newid pan fyddai cynllun datblygu strategol yn cael ei baratoi. Mae Casnewydd yn cynnig cynnal egwyddorion lleol y Lletemau Glas presennol (fel y nodwyd yn y CDLl mabwysiedig) i atal trefi/aneddiadau mawr rhag uno, i reoli ffurf drefol a diogelu tir cefn gwlad.

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn na ellir penderfynu union ffiniau Lletem Las fel y disgrifir yn nogfen Cymru'r Dyfodol heb gytundeb drwy ddull strategol rhanbarthol. Anogir awdurdodau'r rhanbarth i gydweithio'n gynnar er mwyn dechrau ystyried meysydd ffocws a darparu sylfaen dystiolaeth i lunio ffin fanwl gywir.

**<u>Rhwydweithiau Ecolegol Cadarn a Seilwaith Gwyrdd</u>**

Dylai'r rheidrwydd i sicrhau rhwydweithiau ecolegol cadarn a seilwaith gwyrdd effeithiol lywio dewisiadau strategol a gofodol ar bob graddfa. Ystyrir bod angen gwneud mwy o waith i ddangos sut y mae Asesiad o Seilwaith Gwyrdd yr Awdurdod (Mai 2022) wedi llywio'r Strategaeth a Ffefrir er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, gwrthdroi dirywiad mewn bioamrywiaeth a galluogi cymunedau i gael budd o fathau mwy cynaliadwy o reoli adnoddau naturiol.

Nid yw polisïau PS1 a PS2 yn rhestru'r Asesiad o Seilwaith Gwyrdd fel darn allweddol o wybodaeth. Mae’n bwysig bod ystyriaethau bioamrywiaeth a chydnerthedd yn cael eu hystyried yn gynnar wrth baratoi cynlluniau, PCC (6.4.4).

**<u>Mwynau</u>**

Mae'r Datganiad Technegol Rhanbarthol (2il Adolygiad y Datganiad) yn nodi dim dosraniad ar gyfer tir a enillwyd gan y ddarpariaeth tywod a graean yng Nghaerdydd. Mae llythyr egluro polisi Llywodraeth Cymru (dyddiedig 11 Tachwedd 2021) yn nodi diffyg mewn creigiau wedi'u malu sy'n gofyn am ddyraniadau newydd sy'n gyfanswm o 11.3mt. Dylai'r cynllun Adneuo esbonio sut y bydd y diffyg hwn yn cael ei fodloni drwy Ddatganiad Cydweithio Is-ranbarthol i'w gytuno yn is-ranbarth "Gwent gynt." Gan fod diffyg yn y ddarpariaeth, dylai Casnewydd ddangos ar y cyd ag awdurdodau cyfagos sut mae'r dosraniad yn cael ei ddatrys.

<u>KS8: De Langstone</u> - Mae tir i'r de o Langstone wedi'i nodi ar gyfer datblygiad preswyl i hyd at 300 o gartrefi, SDCau a Seilwaith Gwyrdd yn yr Ardaloedd Diogelu Mwynau ar gyfer Tywod a Graean a Chreigiau Caled. Dylai'r Strategaeth a Ffefrir ddangos sut na fydd yr adnodd yn cael ei sterileiddio, a sut na fydd echdynnu yn cael ei atal yn y dyfodol o ganlyniad i ddatblygiad, a/neu ymchwilio i weld a fyddai'n ymarferol echdynnu mwynau cyn dechrau'r datblygiad. Bydd angen egluro'r sefyllfa hon yn y cynllun Adneuo a bydd angen i'r sefyllfa gyd-fynd yn glir â Pholisi PS18.

**<u>Perygl Llifogydd</u>**

Mae perygl llifogydd yn fater allweddol i Gasnewydd oherwydd ei lleoliad arfordirol a glan afon. Paratowyd Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd (SFCA) rhanbarthol Cam 1 ar gyfer yr awdurdod (Tachwedd 2022) a chafodd ei lywio gan y TAN15 datblygol a'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio (FMfP). Argymhelliad yr astudiaeth yw symud ymlaen i SFCA Cam 2 neu Gam 3, sy'n canolbwyntio ar y perygl llifogydd sy'n gysylltiedig â safleoedd datblygu a gynigir yn y cynllun. **Bydd angen i SFCA Cam 2 neu Gam 3 lywio'r Cynllun Adneuo os yw perygl llifogydd yn effeithio ar unrhyw un o'r dyraniadau, yn enwedig ar safleoedd allweddol.** Dylid diwygio polisïau PS4 a PS12 i egluro na chaniateir datblygiadau hynod fregus ym Mharth Llifogydd C2 / Parth Llifogydd 3 yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol.

**Ynni Adnewyddadwy**

Cyhoeddwyd yr Asesiad Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel ym mis Hydref 2020 cyn i'r awdurdod ddechrau ar ei Gynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd. Mae'r asesiad ynni adnewyddadwy **yn ddarn allweddol o dystiolaeth y mae'n rhaid ei ddiweddaru i lywio'r cynllun Adneuo** ac adlewyrchu cyfleoedd o ran ffynonellau ynni adnewyddadwy, yn enwedig ar safleoedd allweddol.

Mae Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 yn nodi Casnewydd fel Ardal Flaenoriaeth ar gyfer Rhwydweithiau Gwresogi Ardal; Mae'r astudiaeth uchod yn nodi cyfleoedd ar gyfer rhwydweithiau gwresogi yng Nghasnewydd a dylai'r awdurdod archwilio hyn ymhellach gan nodi cyfleoedd, lle bo'n ymarferol, yn y cynllun Adneuo.

Fel rhan o ddiweddaru'r astudiaeth a nodi (os o gwbl) ardaloedd chwilio ar gyfer gwynt a solar, bydd angen i'r Cyngor ystyried y diweddariadau diweddaraf i Bolisi Cynllunio Cymru, yn enwedig Pennod 6 (a chyhoeddiad arfaethedig PCC 12) ar fynd i'r afael â'r argyfwng natur a'r TAN 15 datblygol. Rhaid i'r Cyngor sicrhau nad oes gwrthwynebiad heb ei ddatrys gan ymgyngoreion statudol (h.y. Cyfoeth Naturiol Cymru) pe bai Ardaloedd Chwilio Lleol yn cael eu nodi.

**************